**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

# Datganiad Polisi Trwyddedu

## Deddf Trwyddedu 2003

Kelly Watson
Prif Swyddog - Gwasanaethau Rheoliadol, AD a Chyfreithiol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB

**Bydd y ddogfen bolisi gymeradwy ar gael yn Gymraeg, ac mewn fformatau eraill ar gais, ac yn www.penybontarogwr.gov.uk**

**Dyddiad Cymeradwyo: I'w gadarnhau**

# Cynnwys


| ADRAN | PWNC | |
|---|---|---|
| | **Rhagair** | |
| 1 | Cyflwyniad | 3 |
| 2 | Proffil Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 3 |
| 3 | Cwmpas a Chyfyngiad | 4 |
| 4 | Ceisiadau | 5 |
| 5 | Gwneud Penderfyniadau – Polisi Cyffredinol | 6 |
| 6 | Effaith Gronnol – Polisi Arbennig | 9 |
| 7 | Amddiffyn Plant rhag Niwed | 10 |
| 8 | Integreiddio Strategaethau | 11 |
| 9 | Camau i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu | 12 |
| 10 | Cydymffurfiaeth | 17 |
| 11 | Gweinyddiaeth, arfer a dirprwyo swyddogaethau | 17 |
| 12 | Adolygiadau | 17 |
| 13 | Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro | 18 |
| 14 | Digwyddiadau Mawr | 19 |
| 15 | Nodiadau Arbennig | 19 |
| 16 | Ymgynghoriad | 20 |
| 17 | Apeliadau | 20 |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yw'r awdurdod trwyddedu lleol sy'n gyfrifol am safleoedd trwyddedig o dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Mae'r Datganiad Polisi Trwyddedu hwn yn nodi'r polisïau y bydd yr awdurdod trwyddedu yn eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau ac adolygiadau trwyddedu. Paratowyd y polisi hwn yn unol â Deddf Trwyddedu 2003 gan ystyried y Canllaw Statudol a gyhoeddwyd dan adran 182 y Ddeddf.

1.2 Bydd y Datganiad Polisi Trwyddedu hwn yn cael ei adolygu'n gyson a'i gyhoeddi yn unol ag Adran 5 Deddf Trwyddedu 2003. Efallai y bydd angen ystyriaeth ac adolygiad pellach mewn ymateb i newidiadau i ddemograffeg a modelau gweithredu y gellid eu datblygu mewn ymateb i bwysau ariannol cynyddol ar lywodraeth leol.

1.3 Er mwyn osgoi dyblygu ac i sicrhau bod gwybodaeth yn gyfredol, bydd ymgeiswyr, trigolion a phersonau eraill, aelodau o'r cyhoedd ac awdurdodau cyfrifol yn cael eu cyfeirio i .Gov.uk i gael gwybodaeth am y prosesau trwyddedu.

## 2. Proffil Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

2.1. Mae ardal y Cyngor yn cynnwys cymysgedd o gymunedau trefol a gwledig ac mae ganddi boblogaeth o tua 145,500.

Y prif drefi yw Pen-y-bont ar Ogwr, Maesteg, Porthcawl a Phencoed.

Mae Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2023-2028 yn nodi'r amcanion lles canlynol:

2.2 Mae'r polisi hwn yn cysylltu â llawer o themâu a strategaethau corfforaethol y Cyngor ond dyletswydd derfynol y Cyngor, fel yr awdurdod trwyddedu yw hyrwyddo'r amcanion trwyddedu canlynol:

- Atal Trosedd ac Anrhefn;
- Diogelwch y Cyhoedd;
- Atal Niwsans Cyhoeddus; a,
- Gwarchod Plant Rhag Niwed.

2.3 Er mwyn annog mwy o berfformiadau cerddoriaeth fyw, diwygiodd Deddf Cerddoriaeth Fyw 2012 Ddeddf Trwyddedu 2003 drwy ddadreoleiddio agweddau ar berfformiadau cerddoriaeth fyw fel nad yw cerddoriaeth fyw yn weithgaredd trwyddedadwy mewn rhai amgylchiadau. Fodd bynnag, dylai trefnwyr digwyddiadau a deiliaid awdurdod ymweld â .Gov.uk am ragor o wybodaeth cyn cynnal digwyddiad.

2.4 Gwahoddir busnesau newydd neu fusnesau sy'n ystyried gwaith adnewyddu mawr i drafod y cynigion hefyd gyda'r awdurdodau cyfrifol ac adrannau eraill y cyngor cyn cyflwyno cais.

2.5 Pryd bynnag y bo modd, bydd y Cyngor yn ymrwymo i drefniadau partneriaeth, gan weithio'n agos gyda Heddlu De Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, busnesau lleol, cynrychiolwyr cymunedol a phobl leol i ddatblygu Datganiadau Polisi Trwyddedu yn y dyfodol a chyflawni'r amcanion trwyddedu. Mae'r awdurdod wedi

mabwysiadu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a phrotocol gorfodi gydag awdurdodau cyfrifol partner. Mae'r awdurdod trwyddedu hefyd yn cynnal cyfarfodydd awdurdod cyfrifol i drafod arfer gorau, rhannu gwybodaeth ac i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu drwy ddull cydymffurfio targedig sy'n seiliedig ar risg. Mae'r grŵp yn cefnogi mesurau i gynorthwyo a gweithio gyda'r fasnach drwyddedig leol ac asiantaethau partner allweddol hefyd. Gellir gweld copïau o'r protocolau yn www.penybontarogwr.gov.uk

2.6 Rhaid i drefnwyr digwyddiadau cymunedol lleol fod yn ymwybodol bod yn rhaid i'r awdurdod trwyddedu ystyried a pharchu pryderon trigolion lleol, a rhaid i drefnwyr fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau cyfreithiol mewn cysylltiad ag iechyd a diogelwch, llygredd sŵn, adeileddau dros dro, pyrotechneg ac ati, a gwerthu alcohol. Cynghorir trefnwyr yn gryf i gysylltu â Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Digwyddiadau'r Cyngor am gyngor ar gynllunio a chynnal digwyddiad.

## 3. Cwmpas a Chyfyngiad

3.1 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y cyfeirir ato o hyn allan fel "y Cyngor") yw'r awdurdod trwyddedu fel y'i diffinnir yn Neddf Trwyddedu 2003 (y cyfeirir ati o hyn allan fel "y Ddeddf").

3.2 Wrth gyflawni ei swyddogaethau trwyddedu bydd yr awdurdod trwyddedu'n hyrwyddo'r amcanion trwyddedu sef:

- Atal Trosedd ac Anrhefn;
- Diogelwch y Cyhoedd;
- Atal Niwsans Cyhoeddus; a,
- Gwarchod Plant Rhag Niwed.

Mae pob amcan yr un mor bwysig â'r llall.

3.3 Mae cwmpas y Datganiad Polisi Trwyddedu yn cwmpasu'r gweithgareddau trwyddedadwy canlynol ac unrhyw un a ddiffinnir yn Neddf Trwyddedu 2003.

- Manwerthu alcohol (gan gynnwys trwy'r rhyngrwyd neu archebu drwy'r post).
- Cyfanwerthu alcohol i aelodau'r cyhoedd.
- Cyflenwi alcohol i aelodau clybiau cofrestredig.
- Darparu adloniant rheoledig pan gaiff ei berfformio ym mhresenoldeb cynulleidfa ac yn cael ei ddarparu at ddiben, neu at ddibenion sy'n cynnwys y diben o ddiddanu'r gynulleidfa honno, gan gynnwys perfformio drama; arddangosfeydd ffilm; digwyddiadau chwaraeon dan do; digwyddiadau bocsio neu reslo; cerddoriaeth fyw; chwarae unrhyw gerddoriaeth wedi'i recordio; perfformiad dawns; adloniant o ddisgrifiad tebyg; darparu cyfleusterau ar gyfer dawnsio a darparu cyfleusterau ar gyfer creu cerddoriaeth.

Mae'r Datganiad Polisi Trwyddedu hwn yn berthnasol i bob cais mewn cysylltiad â'r canlynol:

- Trwyddedau personol;
- Trwyddedau safle;
- Tystysgrifau safle clwb, a
- Hysbysiadau digwyddiad dros dro.

3.4 Mae'r Datganiad Polisi Trwyddedu yn nodi ymagwedd gyffredinol at wneud penderfyniadau trwyddedu gan yr awdurdod trwyddedu ond nid yw'n ceisio tanseilio hawl unrhyw unigolyn i wneud cais o dan delerau'r Ddeddf am amrywiaeth o ganiatâd ac i unrhyw gais o'r fath gael ei ystyried ar ei rinweddau unigol.

3.5 Nid yw'r Datganiad Polisi Trwyddedu yn ceisio diystyru hawl unrhyw berson i wneud sylwadau mewn cysylltiad â chais neu geisio adolygu trwydded neu dystysgrif pan fo darpariaeth yn y Ddeddf i wneud hynny.

3.6 Ni ddylid ystyried bod unrhyw beth yn y polisi hwn yn nodi y gall telerau'r polisi hwn ddiystyru unrhyw ofyniad cyfraith trwyddedu nac unrhyw gyfraith arall.

## 4. Ceisiadau

4.1 Derbynnir cais neu hysbysiad at ddibenion trwyddedu fel un sydd wedi ei wneud yn gyfreithlon dim ond pan fo'n cynnwys yr holl fanylion gofynnol a bennir gan y Ddeddf a/neu reoliadau. Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn arfer disgresiwn priodol ac ni fydd yn gwrthod ceisiadau os ydynt yn cynnwys mân wallau neu gamgymeriadau ffeithiol y gellir eu cywiro'n hawdd.

4.2 Er mwyn osgoi gwneud sylwadau diangen mewn cysylltiad â chais, cynghorir ymgeiswyr i gwblhau pob rhan berthnasol o ffurflen gais. Mae rhai rhannau o'r ffurflen yn orfodol ac os yw materion wedi eu hystyried ond bernir nad ydynt yn berthnasol i'r cais, awgrymir nodi "ddim yn berthnasol" yn yr adran benodol er mwyn osgoi amheuaeth.

4.3 Nid yw caniatáu cais yn dileu'r angen i'r ymgeisydd fodloni gofynion unrhyw drefn reoleiddiol arall neu ofyniad statudol.

4.4 Dylai pob person sy'n paratoi atodlenni gweithredu, gan gynnwys y rhai ar gyfer digwyddiadau dros dro, nodi bod nifer o gyhoeddiadau ar gael i gynorthwyo'r gwaith o gynllunio digwyddiad. Cynghorir ymgeiswyr i gysylltu â'r cyrff a ddangosir yn **Atodiad A** am ragor o wybodaeth.

## 5. Gwneud Penderfyniadau – Polisi Cyffredinol

5.1 Wrth benderfynu ar gais trwyddedu, yr egwyddor flaenllaw a fabwysiedir gan yr awdurdod trwyddedu fydd bod gan unrhyw unigolyn hawl i wneud cais o dan delerau Deddf 2003 am amrywiaeth o ganiatâd ac mae gan bob un hawl i unrhyw gais o'r fath gael ei ystyried ar ei rinweddau unigol. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, bydd yr awdurdod trwyddedu yn rhoi sylw i'r polisi hwn a'r canllawiau a gyhoeddwyd o dan Adran 182 y Ddeddf Trwyddedu ond gall amrywio ohono pan fydd rhesymau cymhellol dros wneud hynny ac ar ôl derbyn sylwadau perthnasol.

5.2 Os yw cais am drwydded safle neu dystysgrif safle clwb wedi'i wneud yn gyfreithlon ac na fu unrhyw sylwadau gan awdurdodau cyfrifol na phersonau eraill, bydd yr awdurdod trwyddedu yn caniatáu'r cais, yn ddarostyngedig i amodau sy'n gyson â'r atodlen weithredu a'r amodau gorfodol perthnasol yn unig.

5.3 Nid yw'r polisi hwn yn diystyru hawl unrhyw berson i wneud sylwadau am gais nac i geisio adolygu trwydded neu dystysgrif pan fo darpariaeth yn y Ddeddf i wneud hynny. Ni fydd unrhyw beth o fewn y polisi hwn yn diystyru hawl unigolyn i hawl i apelio i Lys Ynadon Caerdydd yn erbyn penderfyniadau'r awdurdod trwyddedu.

5.4 Ni fydd yr awdurdod trwyddedu yn gosod unrhyw amodau oni bai bod ei ddisgresiwn wedi ei weithredu ar ôl i sylwadau perthnasol gael eu gwneud, ac mae wedi'i fodloni mewn gwrandawiad, o'r angen i osod amodau oherwydd y sylwadau a godwyd. Yna bydd yn gosod amodau fel sy'n angenrheidiol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu yn unig ac ni fydd yn gosod amodau safonol na'r rhai hynny sy'n dyblygu cyfundrefnau rheoleiddio eraill cyn belled ag y bo modd. Bydd amodau wedi'u teilwra i safle unigol, ond gall yr awdurdod dynnu ar grwpiau o amodau pan ystyrir ei bod yn briodol i wneud hynny.

5.5 Lle bynnag y bydd yn ymarferol, bydd swyddogion yr awdurdod trwyddedu yn ymdrechu i anfon unrhyw sylwadau i'r ymgeisydd cyn gynted ag y byddant yn dod i law ac nid ar ddiwedd y cyfnod a roddir ar gyfer gwneud sylwadau. Byddai'r awdurdod trwyddedu yn disgwyl i awdurdodau cyfrifol ddechrau trafodaethau gydag ymgeiswyr ar gam cynnar o'r broses ymgynghori er mwyn ceisio eglurhad ar unrhyw bwyntiau a chyn cyflwyno sylwadau i'r awdurdod trwyddedu. Mae'r awdurdod wedi cytuno â'r awdurdodau cyfrifol y bydd yn derbyn sylwadau a gyflwynir yn electronig.

5.6. Er mwyn sicrhau tryloywder a thegwch, bydd yr awdurdod trwyddedu fel arfer yn rhoi manylion personol personau sydd ar gael fel rhan o broses y gwrandawiad oni bai bod y person yn gwrthod ei ganiatâd neu os oes rhesymau eithriadol a chymhellol sy'n gwneud hyn yn angenrheidiol. Penderfynir ar bob achos yn ôl ei rinwedd ei hun gan ymgynghori â'r person dan sylw.

5.7 Rhaid i'r sylwadau fod ar ffurf ysgrifenedig a gellir eu helaethu yn y gwrandawiad dilynol neu sefyll yn eu rhinwedd eu hunain. Gall sylwadau gael eu cyflwyno'n electronig i'r awdurdod trwyddedu yn licensing@bridgend.gov.uk a dylid cynnwys enw a chyfeiriad post y person neu'r personau sy'n gwneud y sylwadau. Er mwyn sicrhau tryloywder a thegwch, bydd yr awdurdod trwyddedu fel arfer yn rhoi manylion personol y trigolion a'r partïon eraill ar gael fel rhan o broses y gwrandawiad, oni bai bod y person yn gwrthod ei ganiatâd neu os oes amgylchiadau eithriadol a chymhellol sy'n gwneud hyn yn angenrheidiol. Penderfynir pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun gan ymgynghori â'r person dan sylw.

5.8 Mae'r awdurdod trwyddedu yn cynnal cofrestr o geisiadau a dderbynnir yn www.penybontarogwr.gov.uk. Nid yw'r awdurdod trwyddedu a'i swyddogion wedi mabwysiadu unrhyw fesurau ar gyfer hysbysu pobl o geisiadau a dderbyniwyd y tu hwnt i'r gofynion statudol.

5.9 Cyn penderfynu ar gais, bydd yr awdurdod trwyddedu yn penderfynu a yw unrhyw sylwadau neu wrthwynebiad yn amherthnasol, yn wamal neu'n flinderus. Gall yr awdurdod trwyddedu ddirprwyo'r swyddogaeth hon i Is-bwyllgor neu swyddog

5.10 Bydd y penderfyniadau a wna'r awdurdod trwyddedu yn canolbwyntio ar faterion dan reolaeth trwyddedeion unigol ac eraill y dyfernir y caniatâd perthnasol iddynt. Bydd y materion hyn yn canoli ar y safleoedd a'r lleoliadau yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy a chyffiniau'r safleoedd a'r lleoliadau hynny. Wrth fynd i'r afael â'r mater hwn, bydd yr awdurdod yn canolbwyntio'n bennaf ar effaith

uniongyrchol y gweithgareddau a gynhelir yn y safleoedd trwyddedig ar aelodau’r cyhoedd sy’n byw, yn gweithio neu’n gwneud gweithgareddau arferol yn yr ardal dan sylw. Nid yw'r awdurdod yn ceisio diffinio'r term "cyffiniau" a bydd yn archwilio pob achos yn seiliedig ar ei rinweddau.

5.11 Wrth gyflawni ei swyddogaethau fel awdurdod trwyddedu o dan Ddeddf 2003, bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried ei rwymedigaethau o dan Adran 17 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

5.12 Mae dyletswydd ar yr awdurdod trwyddedu i amddiffyn hawliau trigolion i breifatrwydd a bywyd teuluol o dan Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn unol â Deddf Hawliau Dynol 1998. Ar yr un pryd, mae'n parchu hawliau sefydliadau masnachol i weithredu eu safle heb gyfyngiad diangen.

5.13 Mae'r awdurdod trwyddedu yn ymwybodol, y bydd lleiafrif o ddefnyddwyr yn ymddwyn yn wael ac yn anghyfreithlon pan fydd wedi gadael y safle trwyddedig. Fel yr amlinellir yng Nghanllawiau'r Swyddfa Gartref, mae'r polisi hwn yn cydnabod bod mecanweithiau eraill o fewn a thu allan i'r drefn drwyddedu sydd ar gael ar gyfer mynd i'r afael â materion o'r fath. Mae'r rhain wedi'u rhestru yng nghanllawiau'r Swyddfa Gartref.

5.14 Polisi mewn cysylltiad â phenderfynu ar amrywiadau trwyddedau:

Ni chaiff yr awdurdod trwyddedu amrywio trwydded er mwyn amrywio'n sylweddol y safle y mae'n ymwneud ag ef. Mae'r awdurdod o'r farn y byddai unrhyw ychwanegiad ffisegol at ôl troed y safle, gan gynnwys ardaloedd y tu allan, lle y gellir cynnal gweithgareddau trwyddedadwy ychwanegol yn gyfystyr ag amrywiad sylweddol i'r eiddo. Fodd bynnag, rhaid archwilio pob achos ar ei rinweddau ei hun felly anogir ymgeiswyr i drafod y cynigion gyda'r awdurdod trwyddedu a'r awdurdod tân cyn comisiynu unrhyw waith. Gwahoddir ymgeiswyr i ystyried a yw'r cais wedi’i gynnwys o fewn y diffiniad o Fân Amrywiad a nodir yn Neddf Trwyddedu 2003. Wrth asesu ceisiadau yn y categori hwn, bydd yr awdurdod trwyddedu yn asesu pob achos ar ei rinweddau ei hun gan ystyried y canllawiau diweddaraf a gyhoeddwyd gan Y Swyddfa Gartref o dan Adran 182 y Ddeddf.

5.15 Polisi cyffredinol mewn cysylltiad ag oriau trwyddedu:

Yn unol â Chanllawiau'r Swyddfa Gartref, bydd siopau ac archfarchnadoedd fel arfer yn rhydd i ddarparu gwerthiannau alcohol i'w yfed oddi ar y safle ar unrhyw adeg pan fydd y siop ar agor ar gyfer siopa oni bai bod rhesymau da. Nid oes unrhyw bolisïau lleol ar waith a bydd pob achos yn cael ei benderfynu ar ei rinweddau ei hun.

5.16 Polisi mewn cysylltiad ag asesu ceisiadau i atal niwsans cyhoeddus:

Bydd y meini prawf canlynol yn cael eu hystyried wrth asesu ceisiadau o fewn cyd-destun atal niwsans cyhoeddus:

- Ansawdd amgylcheddol;
- Amwynder preswyl;
- Cymeriad swyddogaeth ardal benodol; a
- Natur y gweithgareddau arfaethedig i'w darparu yn y safle.

Bydd yr awdurdod trwyddedu fel arfer yn ystyried ffafrio ymgeiswyr sy'n dymuno bod safle mewn ardaloedd sensitif i sŵn yn aros ar agor ar ôl yr amser cau arferol ar nifer penodol o achlysuron (Fel Gŵyl y Banc a phenwythnosau cyn Gŵyl y Banc neu achlysuron arbennig) ar yr amod bod:

Nifer yr estyniadau wedi'i gynnwys yn ei atodlen weithredu a bod camau i fynd i'r afael â niwsans cyhoeddus wedi'u hystyried;

AC

Y rhoddir rhybudd ymlaen llaw i'r awdurdod o bob amser cau hwyrach arfaethedig.

Fodd bynnag, yn absenoldeb sylwadau perthnasol bydd yr awdurdod yn cymeradwyo'r cais.

Gall ymgeiswyr hefyd ystyried defnyddio'r weithdrefn Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro ar gyfer achlysuron arbennig neu Wyliau Banc neu arbennig.

Pan ddaw sylwadau i law, bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried amodau llymach o ran rheoli sŵn mewn lleoliadau sy'n sensitif i sŵn fel ardaloedd preswyl.

5.17 Polisi mewn cysylltiad ag amddiffyn plant rhag niwed:

Ni fydd penderfyniadau yn ceisio cyfyngu mynediad plant at unrhyw safle oni bai ei bod yn briodol gwneud hynny i atal niwed corfforol, moesol neu seicolegol iddynt. Nid yw'n bosibl i'r polisi trwyddedu hwn ragweld pob mater sy'n peri pryder a allai godi mewn cysylltiad â phlant o ran safleoedd unigol ac felly bydd pob achos yn cael ei drin ar ei rinweddau ei hun. Fodd bynnag, mae'r awdurdod hwn yn credu ei bod yn gwbl annerbyniol gwerthu alcohol i blant neu drwy ddirprwy i blant. Bydd amodau sy'n ymwneud â mynediad plant lle mae alcohol yn cael ei werthu, ac sy'n briodol i'w hamddiffyn rhag niwed, yn cael eu hystyried yn ofalus ar ôl derbyn sylwadau perthnasol. Dangosir darpariaethau manylach yn Adran 7.

## 6. Polisi Arbennig: Effaith Gronnol

6.1 Effaith gronnol yw'r effaith bosibl ar hyrwyddo amcanion trwyddedu nifer o safleoedd trwyddedig sydd wedi'u crynhoi mewn un ardal.

6.2 Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi cyhoeddi asesiad effaith gronnol (AEG) i helpu i gyfyngu ar nifer neu fathau o geisiadau am drwydded a gymeradwyir mewn ardaloedd lle mae tystiolaeth i ddangos bod nifer neu ddwysedd y safleoedd trwyddedig yn yr ardal yn cael effaith gronnol ac yn arwain at broblemau sy'n tanseilio'r amcanion trwyddedu.

6.3 Mae'r awdurdod trwyddedu wedi ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref cyn penderfynu p'un a ddylid cyhoeddi AEG ac wedi cynnal ymgynghoriad statudol.

6.4 Crynodeb o'r Asesiad Effaith Gronnol (AEG):

6.4.1 Mae'r AEG yn berthnasol i Ganol Tref Pen-y-bont ar Ogwr mewn cysylltiad â Stryd y Farchnad a Wyndham Street.

6.4.2 Dywedodd Heddlu De Cymru wrth yr Awdurdod Trwyddedu fod 70% o'r digwyddiadau sy'n gysylltiedig â safleoedd trwyddedig yng nghanol y dref rhwng 2034 a 2024 yn ymwneud â Stryd y Farchnad a Wyndham Street.

6.4.3 Nododd yr AEG fod niferoedd a dwysedd y safleoedd yn strydoedd yng Nghanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr yn cael effaith negyddol ar yr amcan trwyddedu Atal Trosedd ac Anhrefn.

6.4.4 Ar ôl ystyried y dystiolaeth gan Heddlu De Cymru, mae tystiolaeth i gefnogi parhad Polisi Effaith Gronnol (PEG) mewn dwy stryd a enwir yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr. Nod y polisi yw lleihau achosion o broblemau sy'n gysylltiedig ag alcohol, trosedd ac anhrefn a niwsans cyhoeddus ac i atal cynnydd yn nifer y safleoedd sy'n agor yn hwyr sy'n ymwneud yn bennaf â gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle. Y bwriad sylfaenol yw sicrhau bod Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr yn amgylchedd diogel i bobl sy'n ymweld ac yn gweithio yn yr ardal.

6.4.5 Mae'r polisi yn berthnasol i geisiadau a dderbynnir am y grant ac amrywiad mawr i drwyddedau safle ar gyfer gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle, ond nid ar gyfer gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle, i Dystysgrifau Safle Clwb neu Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro. Pan fo'r Polisi'n berthnasol mae'n creu rhagdybiaeth wrthbrofadwy sef, lle bo sylwadau perthnasol wedi'u derbyn, y caiff y cais ei wrthod neu bydd yn amodol ar gyfyngiadau penodol oni bai bod yr ymgeisydd yn gallu dangos yn llwyddiannus na fydd y safle yn ychwanegu at yr effaith gronnol negyddol ar un neu fwy o'r amcanion trwyddedu.

6.4.6 Pan dderbynnir sylwadau perthnasol ar gyfer safle cyfagos neu agos i ardal y Polisi Effaith Gronnol, a phan fo'r sylwadau hynny yn codi effaith sylweddol ar yr ardal yna bydd y polisi yn cael ei gymhwyso os bydd yr Awdurdod Trwyddedu o'r farn resymol y byddai caniatáu'r cais penodol yn ychwanegu at yr effaith gronnol sy'n cael ei dioddef yn yr ardal ddiffiniedig.

6.4.7 Nid yw cyhoeddi PEG yn rhyddhau awdurdodau cyfrifol na phersonau eraill o'r angen i wneud sylwadau perthnasol pan fyddant o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Yn ogystal, nid yw cyhoeddi PEG yn newid y ffordd sylfaenol y gwneir penderfyniadau trwyddedu. Felly mae'n agored i'r awdurdod trwyddedu ganiatáu cais pan fydd o'r farn ei fod yn briodol a lle gall yr ymgeisydd ddangos yn yr atodlen weithredu na fyddent yn ychwanegu at yr effaith gronnol negyddol.

6.4.8 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn disgwyl i ymgeiswyr mewn ardaloedd a gwmpesir gan PEG ystyried materion effaith gronnol o fewn yr atodlen weithredu a gyflwynir.

6.4.9 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried yn briodol y gwahanol fathau o safleoedd a'r effaith wahanol y byddant yn ei chael ar y gymuned leol. Fodd bynnag, os na ddaw sylwadau perthnasol i law, bydd yr awdurdod trwyddedu yn caniatáu'r cais ar delerau sy'n gyson â'r atodlen weithredu.

## 7. Darpariaethau mewn Cysylltiad ag Amddiffyn Plant Rhag Niwed

7.1 Y corff a ddynodwyd i gynghori ar amddiffyn plant rhag niwed yw'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

7.2 Pan ddaw sylwadau perthnasol i law, bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried gosod amodau sy'n cyfyngu ar fynediad plant i safle yn yr amgylchiadau canlynol:

- Lle darperir adloniant neu wasanaethau ar gyfer oedolion;
- Mae aelod neu aelodau o'r tîm rheoli presennol wedi'u dyfarnu'n euog am weini alcohol i bobl ifanc neu sydd ag enw drwg am ganiatáu i bobl dan oed yfed (ac eithrio yng nghyd-destun yr eithriad yn Neddf 2003 sy'n ymwneud â phobl ifanc 16 a 17 oed sy'n yfed cwrw, gwin a seidr pan fyddant yng nghwmni oedolyn yn ystod pryd bwyd wrth y bwrdd);
- Mae'n hysbys bod plant wedi cael mynediad heb fod yng nghwmni oedolyn;
- Mae cysylltiad hysbys rhwng y safle a chymryd neu ddelio cyffuriau;
- Safle lle mae elfen gref o gamblo;
- Cyflenwi alcohol yw unig neu brif bwrpas y safle; a
- Safleoedd lle darperir adloniant i blant ac nad oes digon o dystiolaeth bod goruchwyliaeth briodol ger y fynedfa, allanfa, a darpariaeth ar gyfer diogelwch a lles plant.

7.3 Mae'r awdurdod trwyddedu hefyd yn ymwybodol y gall gweithgareddau, fel adloniant oedolion, ddigwydd ar y safle ar adegau penodol ond nid ar adegau eraill. Er enghraifft, gall safle weithredu fel bar caffi yn ystod y dydd gan ddarparu prydau bwyd i deuluoedd ond hefyd ddarparu adloniant gyda chynnwys rhywiol ar ôl 8.00pm. Nid yw'n bosibl rhoi rhestr gynhwysfawr o'r hyn sy'n gyfystyr ag adloniant neu wasanaethau i oedolion neu o natur rywiol. Disgwylir i ymgeiswyr a'r awdurdodau cyfrifol ystyried y pwynt hwn yn ofalus. Mae'r awdurdod trwyddedu o'r farn bod y mater hwn yn cynnwys yn fras, staff bar sy’n noeth ar ran uchaf eu corff, dawns diosg dillad, dawnsio côl, dawnsio bwrdd neu ddawnsio polyn, perfformiadau sy'n cynnwys trais ffug neu ddigwyddiadau erchyll, gweithredoedd rhywiol ffug neu wirioneddol neu ffetisiaeth, neu adloniant sy'n cynnwys iaith gref a sarhaus.

7.4 Mae'r awdurdod trwyddedu yn disgwyl i ymgeiswyr fod yn glir yn eu hatodlenni gweithredu am y gweithgareddau a'r amseroedd y byddai'r digwyddiadau yn cael eu cynnal i helpu i benderfynu pryd nad yw'n briodol i blant fynd i mewn i'r safle. Dylid ystyried hefyd agosrwydd adeiladau at ysgolion a chlybiau ieuenctid fel bod ymgeiswyr yn cymryd camau priodol i sicrhau nad yw hysbysebion sy'n ymwneud â'u safle, neu sy'n ymwneud â digwyddiadau yn eu safle, yn cael eu harddangos ar adeg pan fydd plant yn debygol o fod yn agos i’r safle.

7.5 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn disgwyl i ymgeiswyr, wrth baratoi atodlen weithredu neu atodlen weithredu clwb, nodi'r camau sydd i'w cymryd i amddiffyn plant rhag niwed pan fyddant ar y safle.

7.6 Dylai amodau, p'un a ydynt yn cael eu cynnig neu eu gosod ar ôl derbyn sylwadau perthnasol, adlewyrchu'r gweithgareddau trwyddedadwy sy'n digwydd ar y safle. Yn ogystal â'r amod gorfodol ynghylch gwirio oedran, gall yr awdurdod trwyddedu ystyried amodau eraill sy'n ymwneud ag amddiffyn plant rhag niwed, er enghraifft:

- Cyfyngiadau ar yr oriau pan gaiff plant fod yn bresennol;

- Cyfyngiadau neu eithriadau ar bresenoldeb plant o dan oedrannau penodol pan fydd gweithgareddau penodedig penodol yn cael eu cynnal;
- Cyfyngiadau ar y rhannau o'r safle y caiff plant fynd iddynt;
- Cyfyngiadau oedran (o dan 18);
- Cyfyngiadau neu eithriadau pan fydd gweithgareddau penodol yn cael eu cynnal;
- Gofynion i fod yng nghwmni oedolyn (gan gynnwys er enghraifft, cyfuniad o;
- Gofynion sy'n darparu bod yn rhaid i blant o dan oedran penodol fod yng nghwmni oedolyn); a
- Gwahardd pobl dan 18 oed o'r safle pan fydd unrhyw weithgareddau trwyddedadwy yn cael eu cynnal.

7.7 Pan ddaw sylwadau perthnasol i law, bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried p'un a ddylid atodi amod i'r drwydded safle neu dystysgrif eiddo clwb sy'n gofyn am bresenoldeb nifer digonol o staff sy'n oedolion ar y safle i sicrhau lles y plant yn ystod unrhyw argyfwng mewn theatr sy'n cynnig adloniant sy'n bennaf ar gyfer plant.

**8. Integreiddio Strategaethau**

8.1 Bydd y Cyngor, fel y bo'n briodol, yn ystyried unrhyw wybodaeth berthnasol mewn cysylltiad â diogelwch cymunedol, camddefnyddio sylweddau, anabledd, cydraddoldeb, trafnidiaeth, twristiaeth, datblygu economaidd a materion diwylliannol. Bydd y Cyngor yn monitro'r meysydd hyn a lle dangosir bod gweithgareddau trwyddedu yn effeithio'n andwyol ar y meysydd hyn, bydd yn cael ei adrodd i'r pwyllgor sy'n gyfrifol am y meysydd hyn.

8.2 Bydd cyfundrefnau cynllunio, rheoli adeiladu a thrwyddedu yr awdurdod wedi'u gwahanu'n briodol er mwyn osgoi dyblygu ac aneffeithlonrwydd. Ni fydd Pwyllgorau Trwyddedu wedi'u rhwymo gan benderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor Cynllunio ac i'r gwrthwyneb. Nid yw caniatâd gan Bwyllgor Trwyddedu i wneud unrhyw amrywiad i drwydded sy'n golygu newid sylweddol i adeilad yn rhyddhau'r ymgeisydd o'r angen i wneud cais am ganiatâd cynllunio neu ganiatâd rheoli adeiladu lle y bo'n briodol. Mae'r awdurdod trwyddedu hefyd yn cydnabod y gall oriau cau ar gyfer caniatâd cynllunio fod yn wahanol i oriau trwyddedu felly rhaid i'r gweithredwr gadw at yr amser cau cynharach.

8.3 Atgoffir ymgeiswyr bod Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000, yn gosod rhwymedigaeth gyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon; ac i hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol. Cyfeirir ymgeiswyr i Gynllun Cydraddoldeb Hiliol y Cyngor a gyhoeddir yn www.penybontarogwr.gov.uk.

8.4 Ni fydd amodau trwyddedu yn cael eu gosod lle byddent yn dyblygu cyfundrefnau rheoleiddio neu ddeddfwriaeth eraill. Mae hyn yn cynnwys deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn y gwaith, diogelwch rhag tân, anabledd neu gydraddoldeb.

8.5 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried strategaethau diwylliannol sy'n ymwneud â'r manteision diwylliannol ac economaidd ehangach i'r gymuned o hyrwyddo cerddoriaeth fyw, dawns a theatr. Wrth ddod i benderfyniad, bydd y potensial ar gyfer

aflonyddwch mewn cymdogaethau yn cael ei gydbwyso'n ofalus â'r manteision ehangach hyn ac yn canolbwyntio ar amcanion trwyddedu a rhinweddau unigol y cais.

8.6 Mae copïau o bolisïau'r Cyngor ar gael yn www.penybontarogwr.gov.uk neu gan Adrannau unigol y Cyngor. Gellir dod o hyd i dudalennau gwe yr awdurdod trwyddedu o dan Trwyddedu yn yr A-Y o Wasanaethau.

## 9. Camau i Hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu

9.1 Bydd yr adrannau hyn yn berthnasol i bob sector o fewn y fasnach drwyddedig, gan gynnwys Safleoedd Clwb, y sector manwerthu a digwyddiadau y mae Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro yn berthnasol iddynt. Fodd bynnag, mae'r awdurdod trwyddedu yn cydnabod y dylai ymgeiswyr, trwyddedeion presennol a defnyddwyr safleoedd ystyried dim ond y materion hynny sy'n berthnasol i arddull a nodweddion unigol eu safle a/neu ddigwyddiadau. Mae'r awdurdod trwyddedu yn annog cyfathrebu rhwng ymgeiswyr ac awdurdodau cyfrifol wrth ddrafftio atodlenni gweithredu ac asesiadau risg.

9.2 Wrth lunio atodlen weithredu, rhaid i ymgeiswyr gydymffurfio â'r rheoliadau mewn cysylltiad â chwblhau ceisiadau. Gallent ddymuno hefyd ystyried y pwyntiau canlynol ond nid oes unrhyw rwymedigaeth statudol i wneud hynny. Atgoffir ymgeiswyr ac awdurdodau cyfrifol na ddylent gynnig amodau sy'n dyblygu troseddau a nodir yn Neddf Trwyddedu 2003 nac mewn deddfwriaeth bresennol.

9.3 Mae'r cyfrifoldeb am sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth nad yw'n ymwneud â thrwyddedu yn eistedd gyda'r ymgeisydd. Mae'r awdurdod o'r farn bod y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar wefan .GOV.

9.4 Mae pwysigrwydd cyfartal i'r amcanion trwyddedu canlynol. Dylai ymgeiswyr nodi y gall yr awdurdod trwyddedu hefyd ddatblygu grwpiau o amodau yn seiliedig ar Ganllawiau'r Swyddfa Gartref y gellir tynnu amodau angenrheidiol a chymesur ohonynt os derbynnir sylwadau perthnasol.

9.5 Atal Trosedd ac Anrhefn

Mae adran 17 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor a'r awdurdod trwyddedu i ystyried lleihau trosedd ac anhrefn wrth arfer ei ddyletswyddau. Wrth fynd i'r afael â throsedd ac anhrefn, dylai ymgeiswyr nodi unrhyw faterion penodol i ddechrau (gan ystyried eu math penodol o safle a/neu weithgareddau) sy'n debygol o effeithio'n andwyol ar hyrwyddo'r amcan trosedd ac anhrefn. Dylid cynnwys y camau hynny sy'n ofynnol i ymdrin â'r materion hyn yn yr atodlen weithredu. Dylid targedu amodau ar atal trosedd ac anhrefn, er enghraifft:

a) Gosod a chynnal teledu cylch cyfyng y tu mewn a'r tu allan i'r safle, i gynnwys union leoliad camerâu ar gynlluniau i sicrhau bod ardaloedd wedi'u cwmpasu'n briodol.

b) Polisi cyffuriau ysgrifenedig sy'n cwmpasu chwiliadau cwsmeriaid, atafaeliadau a storio cyffuriau a atafaelwyd yn y safle.

c) Defnyddio Staff Drws cofrestredig gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch a chyfradd y pen y cytunwyd arni o bersonau i gwsmeriaid.

d) Polisi hyfforddi sy'n ymwneud ag atal trosedd ac anhrefn yn y safle.

e) Gwybodaeth am a/neu ddarparu trafnidiaeth i gwsmeriaid.

f) Mabwysiadu Nitenet neu gyswllt radio uniongyrchol tebyg.

g) Aelodaeth o gynlluniau gyda thrwyddedeion eraill i atal trosedd ac anhrefn.

h) Cynnal llyfrau digwyddiadau i gofnodi trosedd ac anhrefn.

i) Cadw at yr arfer gorau a gyhoeddwyd mewn cysylltiad â chlybiau nos, lleoliadau dawns, digwyddiadau dawns awyr agored ac ati.

j) Defnyddio cynwysyddion plastig a gwydr gwydn bob amser neu ar adegau penodol, neu ar gyfer digwyddiadau neu gyfnodau penodol yn ystod y flwyddyn.

k) Polisi mewn cysylltiad â rheoli cwsmeriaid sy'n yfed y tu allan i'r safle er mwyn lleihau'r potensial ar gyfer trosedd, anhrefn, ymddygiad gwrthgymdeithasol a niwsans i'r cyhoedd, a allai gynnwys mesurau i atal gwydrau a photeli rhag cael eu cymryd y tu allan.

l) Polisi ysgrifenedig i gynghori staff ar amddiffyn pobl ifanc ac oedolion agored i niwed.

m) Defnyddio clicwyr neu ddulliau eraill o atal gorlenwi.

n) Polisi mynediad neu ail-fynediad olaf i’r safle, gan gynnwys mesurau i reoli cwsmeriaid sy'n ysmygu lle nad oes ardal addas o fewn ffiniau’r safle ar gyfer cwsmeriaid o'r fath.

o) Mesurau i atal trosedd ac anhrefn sy'n codi os bydd adloniant i oedolion neu o natur rywiol yn cael ei ddarparu a/neu'n cynnwys iaith gref neu sarhaus.

p) Mesurau i atal gwerthiannau i bobl dan oed, er enghraifft ysgogiadau wrth y til a chofrestrau gwrthodiadau.

q) Posteri atal trosedd / Mynd adref yn ddiogel.

r) Gwaharddiad ar dderbyn cwsmeriaid sy'n cario poteli agored neu wedi'u selio i’r safle.

s) Gwaharddiad ar gwsmeriaid rhag mynd â diodydd alcoholig a diodydd eraill o'r safle mewn gwydrau a photeli agored i atal y defnydd o'r cynwysyddion hyn fel arfau ymosodol yn y strydoedd cyfagos ar ôl i unigolion adael y safle.

t) Systemau rheoli ciwiau y tu mewn a'r tu allan i'r safle.

u) Patrolau mewnol gan reolwyr.

9.6 <u>Diogelwch y Cyhoedd</u>

Pan fydd ymgeisydd yn nodi problem o ran diogelwch y cyhoedd (gan gynnwys diogelwch rhag tân) nad yw'n cael ei chynnwys yn y ddeddfwriaeth bresennol, dylai'r

ymgeisydd nodi yn ei atodlen weithredu y camau a gymerir i sicrhau diogelwch y cyhoedd, er enghraifft:

a) Nifer y bobl sy'n mynychu'r safle.

b) Proffil cwsmeriaid (oedran, anabledd ac ati).

c) Mesurau diogelwch rhag tân ac atal tân nad ydynt wedi'u cwmpasu gan gyfundrefnau rheoleiddio eraill.

d) Mesurau rheoli rheolwyr o fewn y safle.

e) Dylunio, adeiladu a gweithredu safleoedd, gan gynnwys toiledau, goleuadau, goleuadau strôb ac ati.

f) Hyfforddiant staff mewn gweithdrefnau ymwybyddiaeth o anabledd a gadael adeilad.

g) Defnyddio effeithiau arbennig fel laserau, pyrotechneg, peiriannau mwg a pheiriannau ewyn.

h) Profi systemau trydanol yn rheolaidd a darparu amddiffyniad RCD.

i) Ymwybyddiaeth o effaith camddefnyddio alcohol a sylweddau eraill.

9.7 Niwsans Cyhoeddus

Mae gan safleoedd trwyddedig y potensial i gael effaith andwyol ar y gymuned leol. Mae'r awdurdod trwyddedu yn cydnabod y dylid taro cydbwysedd rhwng busnesau lleol, amrywiaeth ddiwylliannol a'r angen i amddiffyn y trigolion lleol rhag niwsans.

Mae'r awdurdod trwyddedu yn deall bod niwsans cyhoeddus yn cynnwys y canlynol: sŵn ac aflonyddwch, arogl, sbwriel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Wrth fynd i'r afael â niwsans cyhoeddus, dylai'r ymgeisydd nodi unrhyw broblemau penodol (gan roi sylw i gyffiniau'r safle, y math o safle a'r math o adloniant neu weithgaredd) sy'n debygol o effeithio'n andwyol ar hyrwyddo yr amcan i atal niwsans cyhoeddus. Bydd yr awdurdod trwyddedu yn disgwyl i'r atodlen weithredu nodi, mewn cysylltiad â'r safleoedd hynny sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd preswyl yn bennaf; y bydd camau yn cael eu cymryd i leihau effaith sŵn o gwsmeriaid sy'n ymgynnull y tu allan. Gallai mesurau eraill gynnwys:

a) Mesurau i reoli sŵn, cerddoriaeth a siarad wedi'i chwyddo neu heb ei chwyddo y tu mewn a'r tu allan i'r safle.

b) Mesurau gwrthsain i gyfyngu sŵn a dirgryniad.

c) Lleihau lefelau sŵn a gosod dyfais cyfyngu sŵn i atal cerddoriaeth wedi'i chwyddo sy'n fwy na'r lefel y cytunwyd arni gan y Cyngor.

d) Cadw drysau a ffenestri ar gau a darparu dewis arall digonol o awyru mecanyddol (a sicrhau nad yw'r system awyru fecanyddol ei hun yn achosi problem sŵn).

e) Rheoli gerddi, ardaloedd chwarae ac allanol eraill i sicrhau cyn lleied â phosibl o darfu ar y gymdogaeth – gall hyn gynnwys cyfyngu ar ardaloedd lle gellir yfed diodydd alcohol neu'r amseroedd y gellir eu hyfed.

f) Darparu ardaloedd tawelach i gwsmeriaid.

g) Lle mae gerddi cwrw neu ardaloedd awyr agored tebyg, sicrhau nad yw’r gerddoriaeth chwyddedig yn cyrraedd ardaloedd o'r fath a bod yr ardaloedd hyn yn cael eu sgrinio'n iawn.

h) Gweithredu peirianwaith a pheiriannau er mwyn lleihau'r tarfu ar y gymdogaeth.

i) Effaith meysydd parcio yn y safle a'r ffyrdd mynediad ar y gymuned leol.

j) Effaith danfoniadau ar y gymuned leol.

k) Lleoliad safle mewn cysylltiad ag eiddo preswyl, ysbytai, mannau addoli ac ati.

l) Mabwysiadu polisi "mynediad olaf".

m) Gosod hysbysiadau yn amlwg yn y safle yn gofyn i gwsmeriaid adael yn dawel a pheidio â chau drysau ceir yn glep a gwneud cyhoeddiadau â’r un neges ar adegau priodol.

n) Cyfarwyddo staff drws neu staff eraill i ofyn i gwsmeriaid sy'n gadael y safle i adael yr ardal yn dawel.

o) Asesiadau rheolaidd gan staff neu reolwyr i asesu a oes problemau a sut orau i ymdrin â nhw.

p) Lleihau lefel sŵn y gerddoriaeth tua diwedd y noson a, lle bo’n briodol, chwarae cerddoriaeth dawelach fwy lleddfol wrth i'r noson ddirwyn i ben.

q) Ystyried gwahardd o'r safle bobl sy'n aml yn gadael mewn modd swnllyd.

r) Cynyddu lefelau goleuadau y tu allan (ond yn y fath fodd nad yw'n achosi niwsans i'r trigolion lleol).

s) Gadael llochesi ysmygu, patios neu unrhyw ardaloedd eraill o'r fath lle mae cwsmeriaid yn ysmygu, erbyn 11.00 pm fan bellaf.

t) Annog cwsmeriaid i ddychwelyd i mewn cyn gynted â phosibl, e.e. atal diodydd rhag cael eu cymryd allan, cyfyngu ar nifer y byrddau a'r cadeiriau, ymatal rhag codi llochesi ysmygu a defnyddio gwresogyddion patio.

u) Darparu staff drws neu staff eraill i oruchwylio'r ardaloedd ysmygu a sicrhau bod drysau'n cael eu cadw ar gau pan fydd cerddoriaeth yn cael ei chwarae yn uchel.

9.8 <u>Amddiffyn Plant rhag Niwed</u>

Gall y camau hynny sy'n ofynnol i fynd i'r afael â'r amcan trwyddedu hwn gynnwys:

a) Mathau yr adloniant a ddarperir, yn enwedig os ydynt wedi'u hanelu at blant yn bennaf.

b) Dylai ymgeiswyr nodi p'un a yw adloniant ar gyfer oedolion neu o natur rywiol neu'n cynnwys iaith gref neu sarhaus i alluogi'r Cyngor i ystyried y risg i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, yn enwedig diogelu plant rhag niwed.

c) Hyfforddiant staff ar gyfer ymwybyddiaeth o droseddau.

d) Hyfforddiant staff ar gyfer amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed yn y safle gan gynnwys mesurau prawf oedran ac ymwybyddiaeth o werthu alcohol drwy ddirprwy.

e) Cefnogaeth weithredol a gorfodi Cynllun Prawf Oedran (e.e. Cynllun Validate).

f) Cyfyngiadau oedran.

g) Gwahardd plant o ardaloedd penodol.

h) Gofynion ar gyfer goruchwyliaeth oedolion.

i) Asesiad risg o beryglon.

j) Lleoliad peiriannau sigaréts mewn ardaloedd y gall staff eu gweld yn hawdd.

Gall Adran Safonau Masnach y Cyngor roi cyngor ar Gynlluniau Prawf Oedran.

**10. Cydymffurfio**

10.1 Lle bo angen, cymerir camau gorfodi yn unol ag egwyddorion y Concordat Gorfodi a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth ac Egwyddorion Hampton.

10.2 Mae'r Cyngor yn datblygu strategaeth gydag awdurdodau cyfrifol sy'n darparu ar gyfer targedu safleoedd problemus a/neu risg uchel y cytunwyd arnynt sydd angen mwy o sylw, wrth ddefnyddio dull "cyffyrddiad ysgafn" ar gyfer adeiladau risg isel neu'r rhai sy'n cael eu rhedeg yn dda. Bydd yr awdurdod trwyddedu a'r awdurdodau cyfrifol yn rhoi deiliaid trwydded a busnesau rhybudd cynnar o broblemau, esboniadau clir o'r hyn y mae angen ei wneud, cynlluniau gweithredu, ac amserlenni er mwyn datrys problemau. Bydd camau ffurfiol yn cael eu cymryd os ystyrir bod hyn yn hanfodol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

10.3. Bydd yr awdurdod trwyddedu yn cynnal archwiliadau i benderfynu a oes cydymffurfiaeth ag amodau'r drwydded. Gellir cynnal yr ymweliadau hyn ar ffurf archwiliadau ar y cyd â chyrff statudol eraill neu awdurdodau cyfrifol.

10.4 Er bod y broses adolygu yn amddiffyniad allweddol i'r gymuned leol, dylai trigolion neu fusnesau lleol sydd â phryderon am safleoedd gysylltu â'r asiantaeth berthnasol yn y lle cyntaf. Gall y Cyngor hefyd weithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer pryderon trwy licensing@bridgend.gov.uk

**11. Gweinyddu, Arfer a Dirprwyo Swyddogaethau**

11.1 Wrth benderfynu ar geisiadau, bydd yr awdurdod trwyddedu yn mabwysiadu'r egwyddor o ddirprwyo fel y nodir yn y Ddeddf a'r Canllawiau er budd cyflymder, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran cost. Gellir gweld Cyfansoddiad y Cyngor, Cynllun Dirprwyo i Swyddogion a Chod Ymddygiad Aelodau yn www.penybontarogwr.gov.uk

## 12. Adolygiadau Trwyddedau

12.1 Mae adolygiadau trwyddedau safle yn amddiffyniad allweddol i'r gymuned leol o ran problemau a allai godi yn ystod cyfnod trwydded safle. Mae gan unrhyw berson ac awdurdod cyfrifol yr hawl i gyflwyno sylwadau mewn perthynas â chais neu i geisio adolygiad o drwydded neu dystysgrif o fewn darpariaethau'r Ddeddf. Penderfynir pob achos yn ôl ei amgylchiadau ei hun.

12.2 Mae'r awdurdod trwyddedu o'r farn ei bod yn arfer da i awdurdodau cyfrifol roi rhybudd cynnar i ddeiliaid trwydded am broblemau a'r angen i wella.

12.3 Caiff unigolion neu grwpiau ofyn i gynrychiolydd wneud sylwadau ar eu rhan, er enghraifft cynrychiolydd cyfreithiol, cyfaill, Aelod Seneddol, Aelod o'r Senedd. Mae Aelodau'r awdurdod trwyddedu wedi'u rhwymo gan y Cod Ymddygiad Aelodau wrth gymryd rhan yn y broses drwyddedu.

12.4 Pan fydd yr awdurdod trwyddedu yn gwneud penderfyniad ar gais, bydd yn darparu rhesymau yn ysgrifenedig ac mewn fformatau eraill ar gais.

12.5 Er mwyn sicrhau tryloywder a thegwch, bydd yr awdurdod trwyddedu fel arfer yn rhoi manylion personol y trigolion a'r partïon eraill ar gael fel rhan o broses y gwrandawiad, oni bai bod y person yn gwrthod ei ganiatâd neu os oes amgylchiadau eithriadol a chymhellol sy'n gwneud hyn yn angenrheidiol. Penderfynir pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun gan ymgynghori â'r person dan sylw.

12.6 Gall sylwadau gael eu cyflwyno'n electronig i'r awdurdod trwyddedu yn licensing@bridgend.gov.uk a dylid cynnwys enw y person neu'r personau sy'n gwneud y sylwadau a chyfeiriad post. Dylid cyfeirio ymholiadau hygyrchedd at yr Is-adran Trwyddedu yn y lle cyntaf.

## 13. Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro

13.1 Nid oes angen trwyddedu rhai digwyddiadau bach a gynhelir yn achlysurol mewn safleoedd didrwydded ond mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt i'r awdurdod trwyddedu o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y digwyddiad.

13.2 Gellir defnyddio Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro hefyd ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy sy'n cael eu cynnal mewn safle trwyddedig y tu hwnt i ganiatâd y Drwydded Safle, e.e. efallai y bydd tafarn yn dymuno ymestyn yr oriau y gallant werthu alcohol i gwmpasu digwyddiad chwaraeon.

13.3 Nid oes unrhyw bolisïau arbennig sy'n berthnasol i Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro. Gellir dod o hyd i fanylion llawn am y broses yn .GOV.uk. Dylai trefnwyr digwyddiadau dalu sylw arbennig i gyfeiriadau at y term "diwrnodau gwaith" a'i ystyr wrth gyfrifo pryd i gyflwyno Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro; nid yw diwrnodau gwaith

yn cynnwys y dyddiad y cyflwynwyd yr Hysbysiad, diwrnod cyntaf y digwyddiad, penwythnosau na gwyliau banc.

13.4 Er nad yw'n ofyniad gorfodol, gall ymgysylltu a thrafodaeth gynnar gyda Heddlu De Cymru a thîm Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor ynghylch Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro arfaethedig leihau'r tebygolrwydd o hysbysiad gwrthwynebiad ar sail trosedd ac anhrefn neu niwsans cyhoeddus. Mae'r Cyngor yn annog pob person yn gryf i roi o leiaf 28 diwrnod o rybudd i'r Cyngor o ddigwyddiad (a dau i dri mis neu fwy o rybudd ar gyfer digwyddiadau awyr agored mwy) er mwyn i'r trefnydd gael mynediad at Wybodaeth Diogelwch Digwyddiadau, pwyntiau cyswllt a chyngor drwy'r Cyngor.

13.5 Oni bai bod Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro yn cael ei gyflwyno'n electronig i'r adran drwyddedu, dylid ei gyflwyno hefyd i'r Heddlu a thîm Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor.

13.6 Pan ddaw hysbysiad gwrthwynebu gan yr Heddlu neu dîm Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor, caiff y mater ei gyfeirio i'r Is-bwyllgor Trwyddedu i benderfynu p'un a ellir cynnal y digwyddiad ai peidio. Pan fo sylwadau'n ymwneud yn llwyr ag ychwanegu amodau at yr Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro sy'n gyson â Thrwydded Safle bresennol, caiff datganiad o amodau ei gyhoeddi gyda'r Hysbysiad gan swyddog awdurdodedig heb fod angen gwrandawiad gyda'r Is-bwyllgor Trwyddedu, onid yw'r ymgeisydd yn anghytuno.

13.7 Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro Hwyr

Bwriedir i Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro hwyr gael eu defnyddio gan ddefnyddwyr safleoedd sydd eu hangen am resymau y tu hwnt i'w rheolaeth, e.e. newid lleoliad ar fyr rybudd.

13.8 Gellir cyflwyno Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro hwyr hyd at bum diwrnod gwaith ond nid yn gynt na 9 diwrnod gwaith cyn y digwyddiad ac, oni chânt eu cyflwyno'n electronig i'r awdurdod trwyddedu, rhaid i'r safle hefyd eu hanfon at yr Heddlu ac Adran Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor.

13.9 Dylid nodi, os daw unrhyw wrthwynebiad perthnasol i Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro hwyr i law, caiff gwrth-hysbysiad ei gyflwyno ac ni fydd modd cynnal y digwyddiad. Nid oes digon o amser am wrandawiad gyda'r Is-bwyllgor Trwyddedu.

## 14. Digwyddiadau Mawr

14.1 Bydd angen Trwydded Safle ar ddigwyddiadau sydd â chapasiti i dros 499 o bobl, os bydd gweithgareddau trwyddedadwy yn cael eu cynnal.

14.2 Yn gyffredinol, bydd yn rhaid i ddigwyddiadau dros dro neu fwy parhaol o'r fath gael eu cynllunio'n fanwl, a bydd angen ymgynghori ag Awdurdodau Cyfrifol a chynrychiolwyr sefydliadau eraill sy'n ymwneud â diogelwch.

14.3 Mae gan y Cyngor Panel Cyswllt Digwyddiadau sy'n cynnwys amryw swyddogion y Cyngor, yr Heddlu a'r Gwasanaethau Tân ac Achub sy'n rhoi cyngor a chymorth i drefnwyr y digwyddiad i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a bod digwyddiadau cael eu cynnal yn ddiogel. Argymhellir y dylai ymgeiswyr gysylltu â'r tîm trwyddedu a'r tîm digwyddiadau ar y cyfle cyntaf posibl i drafod eu cynigion fel bod

modd gwneud penderfyniad ar addasrwydd y digwyddiad y bydd y Panel yn ei ystyried. Gellir cysylltu â'r tîm digwyddiadau yn: events@bridgend.gov.uk

**15. Nodiadau Arbennig**

15.1 Pan fo dyfyniadau o Ddeddf Trwyddedu 2003, fe'u darperir fel canllaw gwybodaeth yn unig. Nid ydynt yn ddatganiadau llawn ac awdurdodol o'r gyfraith drwyddedu newydd. Yn benodol, rhaid nodi, er bod y Cyngor wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth ar y tudalennau hyn yn gywir, mae newidiadau i'r gyfraith a gweithredu rheoliadau penodol ar gyfer trwyddedu yn golygu bod y wybodaeth ategol yn y tudalennau hyn yn agored i newid.

**16. Ymgynghoriad**

16.1 Cyhoeddwyd y datganiad polisi drafft, gan gynnwys y wybodaeth a ddarparwyd gan Heddlu De Cymru yn Atodiad Dau, drwy wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr rhwng XX/XX/XXXX a XX/XX/XXXX. Cynhaliwyd ymgynghoriad hefyd gydag, ymhlith eraill, yr Awdurdodau Cyfrifol, asiantaethau partner, Aelodau o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chynghorau Tref a Chymuned a chynrychiolwyr masnach.

16.2 Paratowyd y Datganiad Polisi Trwyddedu hwn gan yr Adran Drwyddedu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac fe'i cymeradwywyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn eu cyfarfod a gynhaliwyd ar XX/XX/XXXX.

**17. Apeliadau**

17.1 Yn achos trwydded safle, dylid gwneud apêl i'r Llys Ynadon yr ardal, ar gyfer ardal y sesiwn fach lle mae'r safle wedi'i leoli (Llys Ynadon Caerdydd).

17.2 Yn achos trwydded bersonol, dylid gwneud apêl i'r llys ynadon ar gyfer ardal y sesiwn fach lle rhoddwyd y drwydded bersonol.

17.3 Mae'r hawliau apelio ar gyfer partïon sy'n anfodlon ar benderfyniadau'r awdurdod trwyddedu wedi'u nodi yn Atodlen 5, Deddf Trwyddedu 2003.

Cyhoeddir manylion cyswllt yr Awdurdod Cyfrifol ar wahân ar y tudalennau gwe Trwyddedu yn www.penybontarogwr.gov.uk neu maent ar gael drwy gysylltu â licensing@bridgend.gov.uk